

Creu amrywiaeth o effeithiau pyrmio

Trosolwg

Mae'r safon hon yn ymwneud â chyfuno, addasu a phersonoli amrywiaeth o dechnegau ymrannu a throelli er mwyn creu amrywiaeth o effeithiau pyrmio ffasiynol. Mae effeithiau pyrmio yn cynnwys cwrls codi gwreiddyn, tonnog, ôl tynnwr corcyn a chwrls gweadog. Mae'r gallu i weithio gyda gwallt wedi'i sensiteiddio hefyd yn ofynnol.

Er mwyn gweithredu'r safon hon, bydd angen ichi gynnal a chadw iechyd, diogelwch a hylendid ar raddfa uchel drwy gydol eich gwaith. Bydd rhaid ichi hefyd gynnal a chadw ymddangosiad personol proffesiynol ac arddangos sgiliau cyfathrebu effeithiol.

Prif ddeilliannau'r safon hon yw:

1. cynnal a chadw dulliau diogel o weithio wrth byrmio a niwtraleiddio gwallt
2. paratoi ar gyfer pyrmio
3. creu amrywiaeth o effeithiau pyrmio

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

Cynnal a chadw dulliau effeithiol a diogel o weithio wrth byrmio a niwtraleiddio gwallt

*
*

1. cynnal a chadw eich cyfrifoldebau dros iechyd a diogelwch drwy gydol y gwasanaeth
2. paratoi eich cleient er mwyn bodloni gofynion y salon
3. diogelu dillad eich cleient drwy gydol y gwasanaeth
4. gwisgo cyfarpar gwarchod personol wrth ddefnyddio cemegau pymio a niwtraleiddio
5. gosod eich cleient mewn safle sy'n bodloni anghenion y gwasanaeth heb iddyn nhw fod yn anghysurus
6. sicrhau bod eich osgo a'ch safle chi wrth weithio yn lleihau blinder a'r risg o anaf
7. cadw eich ardal waith yn lân a thaclus drwy gydol y gwasanaeth
8. defnyddio dulliau gweithio sy'n:
 - 8.1 lleihau gwastraff cynhyrchion
 - 8.2 lleihau'r risg o groes-heintiad
 - 8.3 gwneud defnydd effeithiol o'ch amser gweithio
 - 8.4 sicrhau'r defnydd o adnoddau glân
 - 8.5 lleihau'r risg o niwed neu anaf i chi eich hun ac eraill
 - 8.6 hybu arferion gweithio amgylcheddol a chynaliadwy
9. sicrhau bod eich hylendid, eich diogelwch a'ch ymddangosiad personol yn bodloni gofynion derbyniol y diwydiant a'r sefydliad

Creu amrywiaeth o effeithiau pyrmio

10. dilyn cyfarwyddiadau'r gweithle a'r cyflenwyr neu'r gwneuthurwyr er mwyn gwneud defnydd diogel o gyfarpar, defnyddiau a **chynhyrchion**
11. gwared defnyddiau gwastraff
12. cwblhau'r gwasanaeth o fewn amser masnachol ymarferol

Paratoi ar gyfer pyrmio

*
*

13. gofyn cwestiynau i'ch cleient er mwyn canfod a oes ganddi/ganddo unrhyw wrthrybuddion i wasanaethau pyrmio
14. cofnodi ymatebion eich cleient i'r cwestiynu
15. cynnal profion angenrheidiol gan ddilyn cyfarwyddiadau gwneuthurwyr a gweithdrefnau cydnabyddedig y diwydiant
16. cofnodi canlyniadau **profion** ar gerdyn cofnodi'r cleient
17. dewis **cynhyrchion**, offer a chyfarpar yn seiliedig ar ganlyniadau **profion**, ymgynghoriad **â'ch cleient a ffactorau sy'n dylanwadu
18. paratoi **cynhyrchion**, gan ddilyn cyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr
19. diogelu gwallt a chroen eich cleient cyn y gwasanaeth pyrmio

Creu amrywiaeth o effeithiau pyrmio

*
*

20. archwilio'r amrywiaeth o olygon posib gyda'ch cleient gan ddefnyddio'r cymhorthion gweledol perthnasol
21. seilio eich argymhellion ar werthusiad manwl gywir o wallt eich cleient a'i botensial i greu'r effeithiau gofynnol
22. defnyddio **cynhyrchion** a thechnegau gan roi ystyriaeth i **ffactorau** sy'n dylanwadu
23. personoli eich **technegau ymrannu a throelli** er mwyn rhoi ystyriaeth i **ffactorau** fydd yn dylanwadu ar yr effaith a ddymunir

Creu amrywiaeth o effeithiau pyrmio

24. addasu eich dulliau gweithio a'ch defnydd o **gynhyrchion** er mwyn bodloni anghenion cleientiaid sydd â **gwallt wedi'i sensiteiddio**
25. cadarnhau bod y raddfa ofynnol o gwrllyn wedi ei chyrhaedd drwy gynnal profion datblygiad cwrls ar adegau addas drwy gydol y broses byrmio
26. cymryd camau cywirol i ddatrys problemau sy'n digwydd yn ystod y gwasanaeth pyrmio
27. sicrhau bod datblygiad wedi dod i ben a bod y gwallt wedi ei niwtraleiddio'n effeithiol unwaith y bydd yr **effaith drwy byrmio** wedi ei chreu
28. defnyddio technegau gorffennu creadigol i greu'r **effaith drwy byrmio** a ddymunir * *
29. sicrhau bod yr **effaith** orffenedig **drwy byrmio** yn ategu nodweddion eich cleient ac yn gwella ei delwedd/ddelwedd bersonol a delwedd y salon
30. cadarnhau bod y cleient yn fodlon â'r effaith orffenedig
31. rhoi **cyngor ac argymhellion** i'ch cleient ar y gwasanaeth a ddarperir

Creu amrywiaeth o effeithiau pyrmio

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

Cynnal a chadw dulliau effeithiol a diogel o weithio wrth byrmio a niwtraleiddio gwallt

*
*

1. eich cyfrifoldebau dros **iechyd a diogelwch** fel y maent wedi eu diffinio gan unrhyw ddeddfwriaeth benodol sy'n gysylltiedig â'ch rôl swydd
2. gofynion eich salon ynglŷn â pharatoi cleient
3. y mathau o ddillad gwarchod a ddylai fod ar gael i chi eich hun ac i'r cleientiaid
4. pam ei bod yn bwysig defnyddio cyfarpar gwarchod personol
5. sut y gall safle eich cleient a chi eich hun gael effaith ar y canlyniad a ddymunir a lleihau blinder a'r risg o anaf
6. pam ei bod yn bwysig cadw eich ardal waith yn lân a thaclus
7. yr ystyriaethau diogelwch y mae'n rhaid rhoi sylw iddynt wrth byrmio a niwtraleiddio gwallt
8. y gwahanol ddulliau o lanhau, diheintio a sterileiddio offer
9. dulliau gweithio'n ddiogel ac yn lanwaith ac sy'n lleihau'r risg o groes-heintiad a thraws-bla
10. beth yw dermatitis cyffwrdd, a sut i osgoi ei ddal wrth gynorthwyo gyda gwasanaethau pyrmio a niwtraleiddio
11. y gwahanol fathau o ddulliau gweithio sy'n hybu **arferion gweithio amgylcheddol a chynaliadwy**
12. pwysigrwydd hylendid a hunan-gyflwyniad personol er mwyn cynnal a chadw **iechyd a diogelwch** yn eich gweithle
13. cyfarwyddiadau cyflenwyr a gwneuthurwyr ar gyfer gwneud defnydd diogel o gyfarpar, defnyddiau a chynhyrchion y mae'n rhaid i chi eu dilyn
14. y dulliau cywir o wared gwastraff

Creu amrywiaeth o effeithiau pyrmio

15. amserau gwasanaeth disgwylledig eich salon ar gyfer gwasanaethau pyrmio a niwtraleiddio

Paratoi ar gyfer pyrmio

*
*

16. arwyddocad cyfreithiol holi cleient a chofnodi ymatebion y cleient
17. pwysigrwydd adnabod unrhyw wrthrybuddion i wasanaethau pyrmio a niwtraleiddio
18. y mathau o brofion a ddefnyddir ar gyfer gwasanaethau pyrmio a'u pwrpas
19. pryd a sut y dylid cynnal profion a'r canlyniadau disgwylledig
20. sut y gall canlyniadau profion ddylanwadu ar y gwasanaethau pyrmio
21. y canlyniadau posib o fethu cynnal profion
22. y camau gweithredu i'w cymryd os digwydd adweithiau anffafriol i brofion
23. cyfansoddiad cemegol cynhyrchion pyrmio a niwtraleiddio
24. effeithiau hylifau pyrmio a niwtralyddion ar ffurfiant y gwallt
25. effeithiau triniaethau cyn pyrmio ac ôl-byrmio ar ffurfiant y gwallt
26. sut y mae tymheredd yn effeithio ar y broses byrmio
27. pwysigrwydd amseru manwl gywir a rinsio'r cynhyrchion yn drylwyr
28. pwysigrwydd ac effeithiau adfer pH y gwallt yn dilyn y broses byrmio a niwtraleiddio
29. sut y gall gwahanol **ffactorau** effeithio ar eich dewis o gynhyrchion pyrmio a niwtraleiddio
30. sut y mae gwallt gafodd ei sensiteiddio yn dilyn triniaethau blaenorol a difrod gwres yn ymateb i gynhyrchion pyrmio
31. pam ei bod yn bwysig diogelu gwallt a chroen eich cleient cyn y gwasanaeth pyrmio.

Creu amrywiaeth o effeithiau pymio

32. pwysigrwydd archwilio amrywiaeth o olygon posib gyda'ch cleient gan ddefnyddio cymhorthion gweledol perthnasol
33. sut a pham y gall y gwrthrybuddion effeithio ar y gwasanaethau pymio
34. cyfarwyddiadau'r gwneuthurwyr ar gyfer y cynhyrchion pymio a niwtraleiddio penodol
35. y gwahanol fathau o gynhyrchion pymio a sut y defnyddir y rhain i greu cwrlyn
36. y technegau ymrannu a throelli sydd ar gael ar gyfer gwahanol fathau o wallt
37. sut y mae gwahanol ffactorau yn effeithio ar dechnegau ymrannu a throelli
38. y mathau o offer y gellir eu defnyddio i greu'r effeithiau pymio yn y detholiad
39. sut a pham bod angen addasu eich dulliau gweithio a'ch dewis o gynhyrchion pymio i siwtio gwallt wedi'i sensiteiddio
40. dulliau taenu cynhyrchion pymio wrth ddefnyddio gwahanol dechnegau troelli
41. effeithiau gorymylu cynhyrchion ar wallt sydd wedi'i drin yn gemegol yn flaenorol
42. sut i wirio datblygiad cwrlyn wrth ddefnyddio gwahanol fathau o offer troelli
43. y mathau o gyfarpar a ddefnyddir yn ystod y broses datblygu pym a'u pwrpas
44. y gwahanol fathau o gyfryngau niwtraleiddio a'u defnydd
45. dulliau o daenu niwtraliddion i siwtio'r gwahanol dechnegau troelli
46. pwysigrwydd sicrhau bod effaith orffenedig y pym yn ategu nodweddion eich cleient ac yn gwella ei delwedd/ddelwedd bersonol a delwedd y salon
47. y mathau o broblemau all ddigwydd yn ystod y broses byrmio a'u hachosion a sut i'w cywiro

48. pwysigrwydd rhoi **cyngor ac argymhellion** ar y cynhyrchion a'r gwasanaethau a ddarperir yn y salon

Cwmpas/Ystod cysylltiedig â meini prawf perfformiad

1. Cynhyrchion

- 1.1 elïau rhwystrol
- 1.2 triniaeth cyn pyrmio
- 1.3 hylifau pyrm
- 1.4 niwtralyddion
- 1.5 triniaeth ôl-byrmio

2. Profion

- 2.1 datblygiad
- 2.2 elastigedd
- 2.3 mandylledd
- 2.4 anghydnawsedd

3. Ffactorau

- 3.1 nodweddion gwallt
- 3.2 dosbarthiad gwallt
- 3.3 tymheredd
- 3.4 cyfeiriad, graddfa a hyd a lled y symudiad gofynnol
- 3.5 cyflwr gwallt
- 3.6 hyd gwallt
- 3.7 patrymau tyfiant gwallt
- 3.8 toriad gwallt

3.9 graddfa'r cwrls cyfredol

4. Technegau ymrannu a throelli

4.1 corn bwch (*piggyback*)

4.2 sbiral

4.3 gwehyddu

4.4 gwreiddyn

4.5 cicston (*hopscotch*)

4.6 troelli dwbl

5. Gwallt wedi'i sensiteiddio

5.1 gwallt wedi'i liwio'n barhaol

5.2 gwallt wedi'i oleuo

5.3 gwallt wedi'i byrmio'n flaenorol

6. Effaith y Pyrm

6.1 codi'r gwreiddyn

6.2 tonnog

6.3 ôl tynnwr corcyn

6.4 cwrls gweadog

7. Cyngor ac argymhellion

7.1 sut i gynnal a chadw eu pyrm

7.2 cyfnod amser rhwng gwasanaethau

7.3 cynhyrchion a gwasanaethau presennol ac i'r dyfodol

Cwmpas/Ystod cysylltiedig â gwybodaeth a dealltwriaeth

1. Iechyd a diogelwch

Eich cyfrifoldebau dros iechyd a diogelwch fel y maent wedi eu diffinio gan unrhyw ddeddfwriaeth benodol sy'n gysylltiedig â'ch rôl swydd

1.1 Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith

1.2 Rheoliadau Adrodd ar Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus (*RIDDOR*)

1.3 Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Cymorth Cyntaf)

1.4 Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân)

1.5 Rheoliadau Gweithrediadau Codi a Chario

1.6 Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (*COSHH*)

1.7 Rheoliadau Trydan yn y Gweithle

1.8 Deddf Diogelu'r Amgylchedd

1.9 Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith

1.10 Rheoliadau Iechyd a Diogelwch (Gwybodaeth i Weithwyr)

2. Arferion gweithio amgylcheddol a chynaliadwy

y gwahanol fathau o ddulliau gweithio sy'n hybu arferion gweithio amgylcheddol a chynaliadwy

2.1 Lleihau gwastraff a rheoli gwastraff (ailgylchu, aildddefnyddio, gwaredu diogel)

2.2 Lleihau'r defnydd o ynni (sychwyr gwallt ynni-effeithlon, golau rhad-ar-ynni, defnyddio paneli solar)

2.3 Lleihau'r defnydd o ddŵr ac adnoddau eraill

2.4 atal llygredd

2.5 defnyddio eitemau tafladwy (tywelion hawdd eu sychu)

Creu amrywiaeth o effeithiau pymio

2.6 defnyddio dodrefn ecogyfeillgar wedi'u hailgylchu

2.7 defnyddio paent cemegau isel

2.8 defnyddio cynhyrchion gwallt organig a rhydd o alergedd

2.9 defnyddio lliwyddion gwallt amonia isel iawn

2.10 defnyddio deunydd pacio cynnyrch ecogyfeillgar

2.11 dewis cynhyrchion domestig cyfrifol (te a choffi Masnach Deg)

2.12 annog teithiau lleihau carbon i'r gwaith

3. Gwrthrybuddion (enghreiffiau yn unig)

sut a pham y gall y gwrthrybuddion effeithio ar gyflenwi gwasanaethau pymio

* *

3.1 hanes o adwaith alergaidd blaenorol i gynhyrchion pymio

3.2 alergeddau eraill hysbys

3.3 anhwylderau'r croen

3.4 cynhyrchion anghydnaws

3.5 cyngor neu gyfarwyddyd meddygol

3.6 triniaethau cemegol blaenorol

3.7 tynnu estyniadau gwallt neu blethau yn ddiweddar

4. Ffactorau

sut y mae gwahanol ffactorau yn cael effaith ar eich dewis o gynhyrchion pymio a niwtraleiddio

4.1 nodweddion gwallt

4.2 dosbarthiad gwallt

Creu amrywiaeth o effeithiau pyrmio

4.3 tymheredd

4.4 cyfeiriad a gradd y symudiad gofynnol

4.5 hyd gwallt

4.6 hyd aildyfiant

4.7 gwallt wedi'i drin â lliw

5. Cyngor ac argymhellion

* *

5.1 gwasanaethau ychwanegol

5.2 cynhyrchion ychwanegol

Gwerthoedd

1. Mae'r **Gwerthoedd Allweddol** canlynol yn tanategu cyflenwi gwasanaethau yn y sector trin gwallt a gwaith barbwr:

- 1.1 parodrwydd i ddysgu
- 1.2 cwblhau gwasanaethau mewn amser sy'n fasnachol ymarferol
- 1.3 bodloni safonau ymddangosiad y sefydliad a'r diwydiant fel ei gilydd
- 1.4 sicrhau bod hylendid a diogelwch personol yn bodloni gofynion derbynol y diwydiant a'r sefydliad
- 1.5 agwedd hyblyg tuag at waith
- 1.6 gweithiwr tîm
- 1.7 cynnal a chadw gofal cwsmeriaid
- 1.8 agwedd gadarnhaol
- 1.9 moeseg bersonol a phroffesiynol
- 1.10 y gallu i hunan-reoli
- 1.11 sgiliau cyfathrebu geiriol a chyfathrebu di-eiriau ardderchog
- 1.12 cynnal a chadw dulliau gweithio effeithiol, hylan a diogel
- 1.13 cadw at gyfarwyddiadau'r gweithle, y cyflenwyr neu'r gwneuthurwyr er mwyn gwneud defnydd diogel o gyfarpar, defnyddiau a chynhyrchion

Ymddygiadau

1. Mae'r **ymddygiadau** canlynol yn tanategu'r dasg o gyflenwi gwasanaethau yn y sector trin gwallt a gwaith barbwr. Mae'r ymddygiadau hyn yn sicrhau bod cleientiaid yn cael argraff gadarnhaol o'r salon a'r unigolyn fel ei gilydd

- 1.1 bodloni safonau ymddygiad y salon
- 1.2 cyfarch y cleient yn barchus ac mewn ffordd gyfeillgar
- 1.3 cyfathrebu gyda'r cleient mewn ffordd sy'n gwneud iddi/iddo deimlo'n werthfawr ac yn barchus
- 1.4 adnabod a chadarnhau disgwyliadau'r cleient
- 1.5 trin y cleient mewn ffordd gwrtais a gwasanaethgar ar bob adeg
- 1.6 rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r cleient a'i chadw/gadw'n gysurion
- 1.7 addasu'r ymddygiad er mwyn ymateb yn effeithiol i ymddygiad gwahanol gleientiaid
- 1.8 ymateb yn brydlon i gleient sy'n ceisio cymorth
- 1.9 dewis y ffordd fwyaf priodol o gyfathrebu gyda'r cleient
- 1.10 cadarnhau gyda'r cleient eich bod wedi deall ei disgwyliadau /ddisgwyliadau yn llwyr
- 1.11 ymateb yn brydlon a chadarnhaol i gwestiynau a sylwadau'r cleient
- 1.12 rhoi amser i'r cleient ystyried yr ymateb a rhoi esboniad pellach

Creu amrywiaeth o effeithiau pyrmio

- 1.13 dod o hyd i wybodaeth ar fyr dro fydd o gymorth i'r cleient
- 1.14 rhoi i'r cleient y wybodaeth sydd ei hangen arni/arno am y gwasanaethau neu'r cynhyrchion a gynigir gan y salon
- 1.15 adnabod gwybodaeth all fod yn gymhleth i'r cleient a gwirio a yw hi/e yn ei deall yn llwyr
- 1.16 esbonio'n glir wrth y cleientiaid unrhyw resymau pam na ellir cyfarfod â'u hanghenion neu eu disgwyliadau

Geirfa

1. Dosbarthiad Gwallt (canllaw yn unig yw hwn)

Math 1 – Gwallt syth

- 1.1 Ffein/Tenau – y gwallt yn tueddu bod yn sidanaidd iawn, yn sgleiniog a seimlyd, a gall fod yn anodd dal cyrlen.
- 1.2 Canolig – llawer o cyfaint a swmp yn perthyn i'r gwallt
- 1.3 Bras – y gwallt fel arfer yn syth dros ben ac yn anodd ei gyrlio.

Math 2 – Gwallt tonnog

- 2.1 Ffein/Tenau – patrwm "S" pendant i'r gwallt. Fel arfer gall ddal gwahanol steiliau.
- 2.2 Canolig – y gwallt yn tueddu bod yn grych ac ychydig yn ymwrthol wrth Steilio.
- 2.3 Bras – y gwallt hwn hefyd yn ymwrthol wrth ei steilio ac yn grych iawn fel arfer; y tonnau'n tueddu bod yn fwy trwchus.

Math 3 – Gwallt cyrliog

- 3.1 Cwrls llac – ansawdd gyfunol yn tueddu bod i'r gwallt. Gall fod yn drwchus a llawn ac yn swmpus, ac iddo batrwm "S" pendant. Mae hefyd yn tueddu bod yn grych.
- 3.2 Cwrls tynn – ansawdd gyfunol yn tueddu bod i'r gwallt hyn hefyd; ynghyd â maint cymedrol o gwrls.

Math 4 – Gwallt cyrliog iawn

- 4.1 Sidanaidd – y gwallt yn tueddu bod yn frau iawn, yn dorchau tynn ac iddo batrwm cyrliog mwy diffiniedig.
- 4.2 Gwrychog – hefyd yn frau iawn ac yn dorchau tynn; er hynny mae iddo batrwm cyrliog llai diffiniedig – mwy o siâp patrwm "Z".

2. Mae **Nodweddion Gwallt** yn cynnwys y canlynol: * * * *

- 2.1 trwch gwallt
- 2.2 ansawdd gwallt
- 2.3 elastigedd gwallt
- 2.4 mandylledd gwallt
- 2.5 cyflwr gwallt
- 2.6 patrymau tyfiant gwallt

3. Triniaeth cyn pyrmio

Cynnyrch sy'n cael ei daenu ar y gwallt cyn gwasanaeth cemegol er mwyn llyfnhau'r mandylledd ar hyd siafft y gwallt.

4. Prawf cudyn

defnyddir y prawf hwn yn y broses ad-drefnu i gadarnhau effaith y cynnyrch ar y gwallt a'i gyflwr, e.e. mae'r raddfa sythu wedi ei chyrraedd cyn troelli

5. Gwallt wedi'i sensiteiddio

Gwallt sydd â ffurfiant mewnol brau yn naturiol neu wedi'i achosi gan ffactorau mecanyddol, cemegol a neu amgylcheddol.

Creu amrywiaeth o effeithiau pyrmio

Datblygwyd gan	SkillsActive
Dyddiad cymeradwyo	28 Chwef 2014
Dyddiad Adolygu Dangosol	29 Ebr 2018
Dilysrwydd	Ar hyn o bryd
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	SkillsActive
RCU gwreiddiol	SKAGH22
Galwedigaethau perthnasol	Mentrau mân-werthu a masnachol, Mentrau Gwasanaeth, Galwedigaethau Gwasanaeth Personol, Trinwyr gwallt a Galwedigaethau Cysylltiedig
Cyfres/Set	Trin gwallt
Geiriau Allweddol	effeithiau pyrmio